



Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol Cymru

12 Rhagfyr 2022

Annwyl Gyfeillion

Hoffwn rannu gyda chi eto nifer o astudiaethau achos gan sefydliadau'r GIG am yr hyn y maent yn falch ohono. Caiff y rhain eu casglu fel rhan o'n Bwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru misol. Gweler isod yr uchafbwyntiau gan bob sefydliad.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mae Nyrs Arbenigol Canser yr Ysgyfaint yn y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Womenspire Chwarae Teg 2022 ar gyfer menywod ysbrydoledig yn y categori *Menyw o fewn Iechyd a Gofal*. Cafodd ei henwebu ar gyfer y wobwr Gymreig hon am ei chyfraniad eithriadol fel arbenigwr ym maes canser yr ysgyfaint. Mae wedi gweithio fel Nyrs Arbenigol Canser yr Ysgyfaint Macmillan ym Mwrdd Iechyd y Brifysgol ers 2003 ac fe gefnogodd wasanaeth Orlhain a Diogelu Gwent yn ystod pandemig COVID-19.

Fis diwethaf llongyfarchodd **Gwobrau Iechyd a Gofal De Cymru** staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a enillodd saith categori. Roedd yr enillwyr yn cynnwys y Wobwr Cyflawniad Eithriadol ar gyfer un o Nyrsys Cofrestredig ffyddlon y Bwrdd Iechyd sydd wedi gweithio yn y GIG yng Nghymru ers 52 mlynedd, gyda 49 ohonynt yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Roedd enillwyr eraill yn y categorïau canlynol: Gwobr Iechyd Meddwl; Cyfraniad i Ymateb COVID-19; Tîm Gofal Iechyd; Gwobr Rhagoriaeth mewn Nyrsio; Meddyg Teulu'r Flwyddyn; a Phractis Meddyg Teulu'r Flwyddyn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bydd ystafell Radioleg Ymyriadol newydd yn ysbyty Maelor Wrecsam yn helpu i leihau nifer y sganïau sydd eu hangen ar gleifion i gael diagnosis. Mae'n rhan o raglen adnewyddu offer gwerth miliynau o bunnoedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r offer newydd yn caniatáu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gynnal gwasanaethau radioleg ar draws y Gogledd, ac yn cynnwys ystafelloedd pelydr-X, sganwyr a pheiriannau uwchsain.

Yn gynharach yn y mis, **derbyniodd y cleifion gynaeoleg cyntaf lawdriniaeth â chymorth robot fel rhan o raglen genedlaethol arloesol.** Cyn cwblhau'r achosion cyntaf, cymerodd y tîm theatr ran mewn hyfforddiant helaeth i ddatblygu'r sgiliau robotig craidd sydd eu hangen

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

i ddefnyddio'r system. Tua diwedd 2022, bydd llawdriniaethau robotig yn cael eu cynnig i gleifion canser wrolegol dethol yn y Bwrdd Iechyd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae menter glinigol newydd bwysig a chyffrous, **Clinig SWAN (syndrom heb enw) cyntaf Prydain**, wedi agor yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'r clinig yn cynnig gobaith i blant ac oedolion â syndromau mor brin nad oes ganddynt enw na diagnosis ar gyfer eu cyflwr cymhleth (sy'n effeithio ar tua 175,000 o bobl ar draws Cymru). Mae hon yn broblem iechyd fawr gyda'r rhan fwyaf o gleifion yn gorfod aros am bedair blynedd ar gyfartaledd am ddiagnosis.

Bydd y Clinig SWAN yn cael ei gynnal fel cynllun peilot am ddwy flynedd i ddechrau, ar ôl cael £430,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru a bydd yn anelu at gwtogi'r amser y mae cleifion yn aros am ddiagnosis, gwella gwybodaeth feddygol a mynediad at ofal arbenigol a meithrin ymchwil newydd.

Mae canlyniad **her Traceostomi y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI)** a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2021 a mis Ebrill 2022 gan Sefydliad Calon y Ddraig, staff Bwrdd Iechyd y Brifysgol, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chanolfan Ragoriaeth SBRI wedi cael cefnogaeth gan y Prosiect Diogelwch Traceostomi Cenedlaethol.

Yr her oedd datblygu ffordd arloesol o ddarparu hyfforddiant traceostomi i staff gofal iechyd nad oedd yn dibynnu ar hyfforddiant wyneb yn wyneb ac a allai ddechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran hyfforddiant yn sgil y pandemig. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar efelychiadau wrth ochr y gwely realistig sy'n ail-greu sefyllfaoedd llawn pwysau pan fo angen cymryd camau pendant yn gyflym ac yn gymwys. Mae'r rhaglen realiti rhithwir yn gwbl gludadwy ac, ni waeth lle y cynhelir yr hyfforddiant, bydd defnyddwyr yn profi golygfeydd a synau lleoliad ysbyty y gellir eu haddasu i'w hanghenion. Cafodd yr atebion a ddatblygwyd eu treialu gan staff mewn lleoliadau ysbyty ledled Cymru gyda 97% o'r staff hynny yn adrodd eu bod yn teimlo bod gan y dull hyfforddi hwn y potensial i gael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch ac ansawdd cleifion a thimau.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Croesawodd Ysbyty'r Tywysog Siarl ei garfan gyntaf o saith intern **Project SEARCH**. Mae'r rhaglen hon yn gweld pobl ifanc ag awtistiaeth a/neu anawsterau dysgu yn cael profiad gwaith go iawn ynghyd â hyfforddiant mewn cyflogadwyedd a sgiliau byw'n annibynnol i bontio'n llwyddiannus i fywyd cynhyrchiol fel oedolion. Bydd pob un o'r interniaid yn cwblhau lleoliad 11 mis gan symud deirgwaith i adrannau gwahanol yn yr ysbyty.

Mae Bwrdd Iechyd y Brifysgol wedi arwyddo Addewid Amser i Newid Cymru i gefnogi staff i leihau stigma iechyd meddwl yn y gweithle. Nod yr Addewid yw llunio hyfforddiant iechyd meddwl yn y dyfodol i staff gofal iechyd. Gan weithio ar y cyd ag Amser i Newid Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, mae'r Bwrdd wedi treialu modiwl ar-lein 'byw' i arfogi staff i wella profiadau a chanlyniadau bywyd i unigolion yr effeithir arnynt gan iechyd meddwl, drwy nodi yn well sut, a ble, y gall profiadau o stigma iechyd meddwl ddigwydd mewn lleoliadau gofal iechyd.

Mae dros 300 o aelodau staff clinigol ac anghlinigol wedi cwblhau'r modiwl ac yn dilyn gwerthuso, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu cyllid i'r modiwl gael ei ddarparu ar draws GIG Cymru.

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae crynodebau electronig i feddygon teulu – un o swyddogaethau Dewis Fferyllfa – bellach yn fyw ledled Cymru. Mae e-Grynodebau yn caniatáu i fferyllwyr cymunedol yng Nghymru anfon crynodebau o ymgynghoriad Dewis Fferyllfa claf at feddyg teulu'r claf yn electronig, mewn ffordd sy'n ddiogel, yn gyfrinachol, yn gyflym, yn amserol ac yn olrheiniadwy. Mae hyn sicrhau bod gan y meddyg teulu yr wybodaeth ddiweddaraf am driniaeth, cyngor a chanlyniadau ymgynghoriad y claf mewn lleoliad fferyllfa gymunedol. Mae Dewis Fferyllfa yn cynnig ystod o wasanaethau clinigol a ddiffinnir gan y GIG i gleifion yn y fferyllfa gymunedol, sy'n lleihau'r galw ar feddygon teulu ac adrannau damweiniau ac achosion brys ac sy'n cydnabod y cyfraniad y gall fferyllwyr ei wneud wrth wella iechyd a gofal eu cymunedau lleol. Mae Dewis Fferyllfa hefyd wedi'i integreiddio â rhwydwaith GIG Cymru, sy'n rhoi mynediad i fferyllwyr cymunedol at fanylion meddyginiaeth o fewn cofnod Meddyg Teulu Cymru y claf, gan eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus.

Mae'r prosiect **Plant sy'n Derbyn Gofal** wedi cyrraedd y rhestr fer mewn dau gategori yng [Ngwobrau Arloesedd Annisgwyl](#) Rhagoriaeth mewn Gofal Iechyd drwy Dechnoleg, sef dathliad blynyddol o'r goreuon mewn dylunio, cydweithio ac arwain arbrofol ym maes gofal iechyd digidol yn y DU. Mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn brosiect cenedlaethol a noddir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu dyluniad digidol a fydd yn sail i'r broses glinigol a gofal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae hefyd yn anelu at ddatblygu safonau gwybodaeth cenedlaethol a fydd yn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth rhwng ymarferwyr a sefydliadau.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Mae **cwrs bydwreigiaeth** Prifysgol Bangor, a ariennir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), **wedi cyrraedd y brig yn y DU** yn Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2022, gan ennill sgôr boddhad cyffredinol o 96 y cant.

[Cwrs bydwreigiaeth a ariennir gan AaGIC yw'r gorau yn y DU - AaGIC \(gig.cymru\)](#)

Mae Gwobr Gwella AaGIC 2021/22, wedi'i dyfarnu i feddyg teulu o Abertawe am ei phrosiect gwella ansawdd o'r enw 'Rhagnodi gwrthgeulydd geneuol uniongyrchol'. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar wella'r monitro, yr addysg a'r rheolaeth amlbroffesiynol yn ymwneud â gwrthgeulyddion geneuol uniongyrchol o fewn y lleoliad gofal sylfaenol cymunedol ac mae wedi cael effaith uniongyrchol ar ddiogelwch cleifion.

[Gwobr Gwella AaGIC 2021/22 - AaGIC \(gig.cymru\)](#)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae'r Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol wedi cael ei ddewis fel astudiaeth achos i'w ddefnyddio yn nathliadau **pen-blwydd NHS Charities Together yn 75 oed**, a bydd yn cael ei gynnwys fel rhan o Brosiect Straeon Hanesyddol NHS Charities Together.

Mae'r Timau Chwarae yn ysbytai Glangwilli, Bronglais a Llwynhelyg wedi'u cydnabod yn ail yng nghategori Tîm Chwarae'r Flwyddyn, Gwobrau Chwarae Iechyd Starlight eleni.

Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru

Gweithiodd **Rhwydwaith Canser Cymru** gyda BBC Cymru Wales i gynhyrchu [cynnwys](#) newyddion ar gyfer y we, radio, y cyfryngau cymdeithasol a theledu am ganolfannau diagnostig cyflym. Roedd hyn yn rhan o ymgyrch Cymru i fynd ati cyn un o genhedloedd eraill y DU i gyflwyno canolfannau sy'n gallu helpu i roi diagnosis o ganser i bobl o fewn dyddiau.

Rhoddodd Rhwydwaith Canser Cymru wybodaeth i amryw o aelodau'r tîm yn y Gogledd cyn mynd ati i drefnu cyfweiliadau â nhw. Roedd y cyfweiliadau yn Gymraeg a Saesneg yn ymdrin â chanser a diagnosis nad yw'n ganser. Ar ddiwrnod darlledu, hon oedd y brif stori ar holl sianeli BBC Cymru Wales drwy gydol y dydd.

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Cynhaliwyd ail **Gynhadledd Iechyd a Llesiant** flynyddol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gydag ystod o siaradwyr a gweithgareddau ar yr agenda gan gynnwys ioga, maetheg, llesiant ariannol, ffitrwydd corfforol ac ymdopi â straen. Roedd dros 300 o staff yn bresennol.

Cwblhawyd prydles ar gyfer **elusen Headway** (cangen Caerdydd a de-ddwyrain Cymru) i symud lleoliad i Ysbyty Athrofaol Cymru Llandochoau, ar gyfer ei phencadlys newydd. Mae Headway yn elusen ledled y DU sy'n gweithio i wella bywyd ar ôl anaf i'r ymennydd drwy ddarparu gwasanaethau cymorth a gwybodaeth hanfodol, a fydd, wrth gwrs, yn ategu'r ôl-ofal a gaiff cleifion gan y GIG wrth gefnogi eu gofalwyr. Mae'r brydles ar gyfer yr hen adeilad ymchwil ôl-raddedig (a gafodd ei adael yn wag am flynyddoedd) ar y safle; mae'r adeilad wedi cael ei adnewyddu gyda rampiau, lleoedd parcio hygyrch ac isadeiledd TG ac mae'n barod i dderbyn cleifion.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Wrth i achosion COVID-19 yn y gymuned barhau i godi, mae brechwyr o fewn y Bwrdd Iechyd wedi **dyfeisio a darparu rhaglen frechu gyflym i roi brechiadau atgyfnerthu allgymorth** i breswylwyr hŷn sy'n agored i niwed mewn cartrefi gofal, oedolion sy'n derbyn gofal gartref a chleifion mewnol ledled y sir.

Yn ystod y deg diwrnod cyntaf, llwyddodd y tîm i frechu mwy nag 81% o'r grŵp hwn, gan deithio i ystod o leoliadau anghysbell ar draws 2,000 milltir sgwâr o sir Powys.

Mae gweithio gyda chyfleusterau marchogaeth lleol wedi trawsnewid bywydau carfan fach o ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl drwy ddefnyddio Therapi Marchogaeth. Mae'r dull hwn yn rhan o fesurau i gefnogi therapïau iechyd meddwl, ac mae adroddiadau gwerthuso'r prosiect wedi bod yn hynod gadarnhaol gan ddangos tystiolaeth o feithrin hyder, iechyd corfforol a meddyliol a theimlad cyffredinol o les.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Mae gwasanaeth sy'n arbed golwg yn Ysbyty Treforys ar gael i fwy o gleifion nag erioed. Croesgysylltu'r cornbilen yw'r unig driniaeth ar gyfer ceratoconws, pan fo'r cornbilen yn chwyddo i siâp côn a'i gwneud hi'n anodd gweld. Mae'r driniaeth unwaith yn cynnwys defnyddio peiriant sy'n canolbwyntio pelydrau UV ar y cornbilen, ynghyd â meddyginiaeth ar ffurf diferion llygaid. Mae'r rhain yn cyfuno i wneud bondiau cemegol ar y cornbilen i'w gryfhau ac atal unrhyw anffurfio pellach. Bum mlynedd yn ôl cyflwynwyd gwasanaeth i oedolion mewn canolfan yn Ysbyty Singleton, y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Golygai hynny nad oedd angen i gleifion deithio i Loegr mwyach, na thalu'n breifat, am y driniaeth.

Yn dilyn cymeradwyaeth gan Technoleg Iechyd Cymru, cafodd y gwasanaeth ei ymestyn i blant mor ifanc ag 11 oed y llynedd ac mae hefyd bellach yn cael ei ddefnyddio i gefnogi oedolion a phlant anabl ac oedolion a phlant ag anawsterau dysgu a chyflyrau fel syndrom Down.

Mae ymchwilwyr yn Ysbyty Treforys wedi torri tir newydd wrth ddeall un o ganlyniadau mwyaf niweidiol COVID-19 gan ddefnyddio cyllid Sêr Cymru Llywodraeth Cymru. Mae'r ymchwilwyr wedi cadarnhau canfyddiadau arwyddocaol o ran sut mae'r feirws

yn newid proses ceulo gwaed y corff, ac felly wedi darganfod pam y gall triniaethau cyfredol fethu, gan arwain weithiau at fethiant organau. Cyflwynwyd y canfyddiadau yn y Symposiwm Rhyngwladol ar gyfer Gofal Dwys a Meddygaeth Frys ym Mrwsel ac maent wedi'u cyhoeddi mewn cyfnodolyn arbenigol, gyda mwy o gyhoeddiadau i ddilyn. Bwriedir cynnal astudiaethau pellach i benderfynu pa fecanweithiau penodol sy'n hyrwyddo ceulo annormal mewn clefydau aciwt fel COVID-19 gan ddefnyddio technegau arloesol newydd ar geulo i ddilysu'r canfyddiadau ymhellach.

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Mae oncolegwyr yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Gwlad yr Haf, Taunton wedi ennill gwobr ryngwladol fawreddog yng Nghyngres y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Oncoleg Feddygol (ESMO) eleni. Mae **Gwasanaeth Gwaed Cymru** wedi dod yn noddwr swyddogol Cwpan Cynghrair Haen 2 ar gyfer tymor 2022/23. Mewn partneriaeth â Chyngyreiriau JD Cymru mae'r gystadleuaeth bellach yn cael ei hadnabod fel Cwpan Cynghrair Gwasanaeth Gwaed Cymru.

Fe wnaeth Gwasanaeth Gwaed Cymru weithio mewn partneriaeth â Chyngyreiriau JD Cymru a Chyngyreiriau Adran Genero yn 2020 i annog cefnogwyr pêl-droed domestig i roi gwaed. Mae'r ymgyrch 'Gwaed, Chwys ac Iechyd Da' eisoes wedi achub bywydau dros 2,000 o oedolion ers lansio ac mae clybiau ar draws y cyngyreiriau a'r bartneriaeth yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ledled y wlad. www.wbs.cymru/pêl-droed.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services